

Eluned Morgan

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol

04 Gorffennaf 2023

Annwyl Eluned

Amseroedd aros y GIG:

Diolch am eich llythyr dyddiedig **4 Ebrill 2023** ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y targedau adfer a nodir yn **rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros yng Nghymru**.


Fel y gwyddoch yn sgil y llythyr a anfonwyd gennyf ar **17 Chwefror 2023**, er ein bod yn cydnabod bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud o ran mynd i'r afael ag amseroedd aros y GIG, roedd gennym rai pryderon na fyddai'r targedau adfer yn cael eu bodloni oni bai bod gweithgarwch yn cynyddu.

Yn ystod ein cyfarfod ar 14 Mehefin 2023, gwnaethom drafod data amseroedd aros y GIG ar gyfer mis Mawrth 2023, a gafodd eu rhyddhau ym mis Mai 2023, yn erbyn y targedau adfer a nodir yn y rhaglen. Mae'r data'n dangos bod y ddau darged adfer cyntaf wedi'u methu (sef, lleihau amseroedd aros ar gyfer cleifion allanol i lai na 52 wythnos erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022, a dileu arosiadau dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023).

Mae hyn yn golygu bod miloedd o gleifion yn parhau i aros yn rhy hir am driniaeth yn y GIG.

Byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod y materion hyn gyda chi yn ystod tymor yr hydref, a bydd ein swyddogion yn cysylltu â chi er mwyn trefnu dyddiad priodol. Yn y cyfamser, byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a amlinellir yn yr atodiad, a hynny **erbyn 15 Awst 2023**.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



## Atodiad: Amseroedd aros y GIG: cais am wybodaeth

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a ganlyn **erbyn 15 Awst 2023**.

Targed ar gyfer llwybrau cancer

---

Ym mis Mawrth 2023, dechreuodd 53.3 y cant o gleifion cancer eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod o'r dyddiad yr amheuyd bod ganddynt ganser am y tro cyntaf, o gymharu â'r targed interim o 70 y cant y cytunwyd arno gyda'r Tîm Gwella ac Adfer Gofal wedi'i Gynllunio.

1. Yn eich llythyr dyddiedig 4 Ebrill 2023, gwnaethoch ddweud bod y broses o ddileu ôl-groniadau yn effeithio ar y broses o gyflawni'r targed ar gyfer llwybrau cancer, gan fod llwybrau cancer yn cael eu hadrodd fesul llwybr caeedig. A fyddai modd i chi roi esboniad pellach ynghylch y mater hwn, gan amlinellu'r hyn sy'n cael ei wneud i wella perfformiad yn erbyn y targed?

Y saith arbenigedd "hynod o heriol"

---

Gyda'i gilydd, mae'r saith arbenigedd y nodwyd eu bod yn "hynod o heriol" – ac sydd felly y tu allan i gwmpas targedau adfer dau a thri – yn cyfrif am 27,400 (86 y cant) o lwybrau cleifion sy'n aros am fwy na dwy flynedd. Mae'r saith arbenigedd yn cynnwys trawma ac orthopedeg; y glust, y trwyn a'r gwddf; offthalmoleg; llawfeddygaeth gyffredinol; wroleg; gynaecoleg; a llawfeddygaeth y geg. Byddem yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am y modd y caiff yr arbenigeddau hyn eu hadlewyrchu yn adroddiadau Llywodraeth Cymru.

2. Ein dealltwriaeth ni yw bod y saith arbenigedd a restrir uchod wedi'u heithrio o dargedau adfer dau a thri. A fyddai modd i chi gadarnhau a yw hynny'n wir?
3. A fyddai modd i chi egluro a oedd y data yr adroddwyd arnynt yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys pob arbenigedd, gan gynnwys y saith arbenigedd y nodwyd eu bod yn "hynod o heriol"? Os oeddent wedi'u cynnwys yn flaenorol, ond maent bellach wedi'u heithrio, pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod modd cymharu data dros amser?
4. Mae'r darlun cenedlaethol o ran yr arbenigeddau sydd â'r amseroedd aros hiraf yn wahanol fesul bwrdd iechyd. A fyddai modd i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch pryd, sut a pham y gwnaed penderfyniadau i eithrio'r saith arbenigedd a restrir uchod o'r targedau adfer, a phwy oedd yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad hwnnw?
5. A fydd y sefyllfa o ran eithrio / cynnwys y gwahanol arbenigeddau hyn o fewn y targedau yn aros fel y mae, neu a ydych yn rhagweld unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud dros amser? Os bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud, sut y bydd y wybodaeth honno'n



cael ei chyfleu, a pha gamau y bydd yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod modd parhau i gymharu data dros amser?

6. Sut y bydd y penderfyniadau i eithrio'r saith arbenigedd dan sylw yn effeithio ar yr hyn y mae byrddau iechyd yn ei flaenoriaethu o ran eu hymdrechion? Er enghraifft, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, nid yw gynaeoleg ac offthalmoleg yn destun yr amseroedd aros hiraf (dwy flynedd). Yr arbenigedd â'r arhosiad hiraf yw orthodonteg. Ym mwrdd Hywel Dda, nid yw dermatoleg wedi'i gynnwys yn y saith uchaf, ond mae rheoli poen wedi'i gynnwys.
7. Pa gamau a gymerwyd i flaenoriaethu'r broses o wella amseroedd aros mewn perthynas â phob un o'r saith arbenigedd unigol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y targedau adfer? A roddwyd unrhyw ystyriaeth i bennu targedau unigol ar gyfer y saith arbenigedd dan sylw?

### Uwchgynadleddau gweinidogol

---

Yn eich llythyr dyddiedig 4 Ebrill 2023, gwnaethoch ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr uwchgynadleddau gweinidogol a gynhaliwyd mewn perthynas ag offthalmoleg, gofal brys, y glust, y trwyn a'r gwddf, ac orthopedeg.

8. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn ymrwymo i rannu â ni grynodedb o'r canfyddiadau, ynghyd â manylion unrhyw gynlluniau gweithredu sy'n deillio o uwchgynadleddau Gweinidogol o'r fath, a hynny ar sail barhaus. Er enghraifft, byddem yn ddiolchgar i gael diweddariad yn dilyn pob uwchgynhadledd a gaiff ei gynnal, neu ddiweddariad tymhorol yn cwmpasu unrhyw uwchgynadleddau o'r fath sydd wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod perthnasol.

